Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/05517/19

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

12 Mawrth 2019

Deiseb P-05-862-Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion

Annwyl David

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 4 Mawrth, yn gofyn am ragor o wybodaeth am y ddeiseb uchod yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Deisebau ar 12 Chwefror.

Yn ddiweddar, cefais gyfarfod â'r deisebydd ac fe drafodom bwyntiau tebyg i'r rhai a nodwyd yn ei lythyr i chi. Fe dderbyniodd y deisebydd hefyd fy nghynnig i gwrdd â'm swyddogion i drafod manylion yr ymgynghoriad ar y canllawiau gwrthfwlio drafft. Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried yr adborth a gawsant gan y deisebydd yn ystod y cyfarfod hwn ochr yn ochr â'r ymatebion eraill i'r ymgynghoriad a ddaeth i law, a'r adborth yn sgil y digwyddiadau ymgysylltu rydym wedi'u cynnal.

Rydych yn holi ynghylch ein hasesiad o ddigonolrwydd y dyletswyddau cyfreithiol presennol o ran atal a herio bwlio mewn ysgolion; mae ein dull gweithredu yng Nghymru yn canolbwyntio ar atal y broblem rhag codi yn y lle cyntaf, ac mae parch ac ymddygiad cadarnhaol yn ganolog i hyn. Wedi dweud hynny, mae'r canllawiau drafft diwygiedig yn amlinellu'r dyletswyddau cyfreithiol presennol. Yn benodol, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob ysgol lunio polisi ymddygiad. Disgwylir i strategaethau gwrthfwlio effeithiol fod yn rhan ganolog o'r polisi ymddygiad hwnnw ac i bawb yn yr ysgol, gan gynnwys y disgyblion, eu datblygu a'u gweithredu.

Mae'r canllawiau drafft hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y gallai rhai mathau o fwlio, hy aflonyddu, neu ymddygiad neu gyfathrebu bygythiol, fod yn droseddau. Os bydd staff ysgol neu rieni yn teimlo y gallai trosedd fod wedi'i chyflawni, gallant a dylent weithredu ar unwaith a rhoi gwybod i'r heddlu. Mater i'r heddlu wedyn yw penderfynu a ddylid ymchwilio ac erlyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel rhan o'r ymgynghoriad diweddar ar ganllawiau gwrthfwlio diwygiedig, rydym wedi siarad â phlant a phobl ifanc, ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff gwirfoddol er mwyn deall yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth ddelio â bwlio. Rydym wedi ymgysylltu'n eang er mwyn sicrhau bod y canllawiau mor effeithiol â phosibl.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Chwefror, ac mae fy swyddogion wrthi'n dadansoddi'r ymatebion a'r adborth o'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd. Unwaith bydd y dasg hon wedi'i chyflawni, byddaf mewn gwell sefyllfa i gadarnhau'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau newydd a'r pecyn adnoddau ategol.

Yn gywir

Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg